Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Elin Jones AS, y Llywydd

15 Gorffennaf 2020

Annwyl Lywydd,

**Amserlen Cyllideb 2021-22**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Mehefin 2020, yn ceisio barn y Pwyllgor Cyllid ar amserlen arfaethedig Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Er bod y Pwyllgor Cyllid yn gwerthfawrogi bod yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Gyllideb yn adlewyrchu’r ansicrwydd ynghylch Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU, cawn ein bod mewn sefyllfa debyg i’r llynedd, gyda’r amserlen arfaethedig yn gostwng yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu. O ystyried yr ansicrwydd parhaus sydd ynghlwm á’r pandemig Covid-19 a diwedd y cyfnod pontio Brexit, mae'n bwysicach fyth cael y cyfle i gynnal gwaith craffu cadarn eleni.

Fel y cyfeiriodd y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd yn ei llythyr dyddiedig 2 Gorffennaf 2020, rwyf fi, ynghyd â’m cymheiriaid yn Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Rydym wedi pwysleisio pa mor bwysig yw amseriad cyllideb y DU ar gyfer cyllidebau'r llywodraethau datganoledig, o ystyried bod y lefel briodol o waith craffu ar gyllidebau'r llywodraethau datganoledig yn dibynnu ar hynny. Rydym wedi gofyn am gael arwydd mor gynnar â phosibl ynglŷn ag amseriad Cyllideb y DU a sicrwydd y bydd y Prif Ysgrifennydd yn ystyried effaith yr amseriad hwnnw ar wahanol brosesau cyllideb y gwledydd datganoledig.

Serch hynny, pe bai'r Gweinidog Cyllid yn gallu cyflwyno'r gyllideb yn gynharach yn yr hydref, byddai'r Pwyllgor Cyllid yn cefnogi'r cam bod y Pwyllgor Busnes yn diwygio'r amserlen yn unol â hynny, a’i bod yn fwy ffafriol o ran nifer yr wythnosau sydd ar gael pan fydd y Senedd yn eistedd, i gynnal gwaith craffu.

Yn gywir

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.